CYNGOR CYMUNED LLANEGRYN

**Cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fawrth 27ain o Awst 2024 am 7.30yh yn y Neuadd, Llanegryn.**

Presennol; Cyng. Alwyn Roberts, Lona Harris, William T Davies, Catrin Rutherford, Eurgain Haf Davies a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Alwyn Roberts.

   Roedd ymddiheuriad i law gan Cyng WRP Jones.
   Gwahoddwyd **ddatganiadau o ddidordeb** am faterion ar yr agenda.
   Nid oedd unnrhyw ddatganiadau.

2. Cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

   Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

3. **Cadarnhawyd gofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar yr 20fed o Fai** ar gynnig Cyng.Lona Harris a'i eilio gan Cyng Eurgain Davies.

4. **Materion yn codi a materion eraill.**

a) **Gardd Goffa –** adroddwyd nad oedd datblygiadau yn ddiweddar, a byddai rhaid trafod yn y cyfarfod nesaf. Yn dilyn talu y rhan daliad i GT Davies & Co, nodwyd y byddai modd gwneud cais am ad-daliad TAW. Byddai Cyng Lona Harries yn gwenud ymholiadau am y cynnig caredig o fainc i'r safle.

b) **Toiledau yn Llanegryn** – roedd ymateb gan Scrub a Dub yn rhoi eglurhad am yr anfoneb am £150.00. Ar gynnig Cyng W T Davies a'I eilio gan Cyng Eurgain Haf Davies, penderfynwyd ei dalu. Penderfynwyd nad oedd angen gwasanaeth Scrubadub yn y dyfodol. Roedd Shan Jones wedi cynnig gofalu ei hun am lanhau y toiledau, a diolchwyd yn fawr iawn am hyn. Nodwyd y byddai raid cyfarfod y costau bob chwarter.

c) **Llwybr ger Peniarth Uchaf** – trafodwyd mai llwybr drwy fferm Dysefin oedd dan sylw, ac nad oedd hyn o fewn ffiniau Cyngor Llanegryn.

d) **Cyflwr ffordd ddi-ddosbarth o Roslefain i gyfeiriad y Ffordd Ddu** – nid oedd ymateb pellach

e) **Pryder am y ffordd newydd yn Machynlleth -yr A493 yn ymuno a'r A487 –** cyfeiriwyd at ymateb Llinos Jones o Gyngor Gwynedd ynglyn a'r mater yma.

**f)** **Sedd wag ar y Cyngor –** nodwyd fod y rhybudd cyhoeddus yn gwahodd cais am etholiad wedi bod ar yr hysbysfwrdd a'r wefan. Roedd e-bost gan Huw Elfed Roberts, Swyddog Gwasanaethau etholiadol o Gyngor Gwynedd dyddiedig 23 Awst yn cadarnhau nad oedd cais wedi ei dderbyn. Gallai'r Cyngor yn awr fynd ymlaen i gyfethol. Roedd posteri wedi eu paratoi ar gyfer yr hysbysfwrdd, ac wedi ei roi ar y wefan, gyda dyddiad cau 27ain o Fedi. Nodwyd fod dau enw eisoes I law.

## 5.Materion Cynllunio

Hysbysiad o flaen llaw o dan Atodlen 2, Rhan 31 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 ar gyfer dymchwel storfa Neuadd Egryn, Llanegryn, LL36 9SL

Math Caniatad: Rhybudd Ymlaen Llaw Application Type: Prior Notification Rhif Cais / Application Number: NP5/64/65D.

*Cadarnhawyd nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cais*

…………………………………………………..

Cais NP5/64/194

Gosod 2 res o baneli solar 10kw wedi'u gosod ar y ddaear Fferm Ty'n Llan, Llanegryn. LL36 9ST

*Cadarnhawyd nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cais*

## 6. Materion Cyllid.

a) Cyfrifon 2023-24 – roedd y cyfan wedi eu danfon I'r Archwilydd Allanol, ac nid oedd dim datblygiad pellach.

b) Cytunwyd, ar gynnig Cyng Eurgain Davies a'i eilio gan Lona Harries i dalu yr anfonebau canlynol;

Cyngor Gwynedd – Archwilio mewnol 23-24 - £330.

Archwilio Cymru – archwilio allanol 2019/20 - £200 ac archwilio allanol a 2021/22 - £335.

(nodwyd fod angen eglurad am yr oedi yn derbyn yr anfonebau yma gan Archwilio Cymru).

c) Roedd cais i law gan Cerebral Palsy Cymru, a phenderfynwyd peidio cyfrannu.

d) Roedd nodyn o ddiolch gan Papur Bro Dail Dysynni am y cyfraniad o £150.

e) Trafodwyd Mandate Banc HSBC y Cyngor Cymuned - a'r angen i ddiweddaru. Diolchwyd i Cyng Catrin Rutherford am gysylltu gyda'r banc. Penderfynwyd trafod ar ol cyfethol aelod newydd y Cyngor Cymuned.

7. **Gohebiaeth.**

a) Cyfeiriwyd at ddyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru a oedd wedi eu cylchredeg i'r Cynghorwyr

**b)** Nodwyd ac eglurwyd ymgyngoriad Cyngor Gwynedd ar newid y sustem bleidleisio mewnol y Cyngor.

**c)** Roedd llythyr gan Gyngor Gwynedd yn nodi gwaith ar Pont Dysynni.

8. **Unrhyw fater arall.**

- Roedd cais gan aelod o'r cyhoedd i ymchwilio i sefyllfa coed sy'n gor-dyfu uwchlaw y llwybr sy'n arwain at y cae chwarae. Byddai'r Clerc yn rhoi hyn ar yr agenda i'r cyfarfod nesaf.
- Mynegwyd diolch diffuant gan bawb i Shan am ei holl waith fel Clerc, ac hefyd am yr gwaith yr oedd Shan wedi ei wneud ers rhoi'r gorau yn swyddogol i'w swydd fel Clerc yn niwedd Mawrth eleni. Gwelwyd y dylid rhoi cyfraniad iddi o £300, a chynigiwyd hyn gan Cyng Lona Harries a'I eilio gan Cyng Eurgain Davies, a gyda chefnogaeth pawb. Byddai Huw yn cysylltu gyda'r cyfrifydd i gael cadarnhad o sut I wneud y taliad. Hefyd cytunodd Eurgain I drefnu cael blodau erbyn y cyfarfod nesaf ar y 30ain o Fedi.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; Y NEUADD LLANEGRYN NOS LUN 30ain Medi 2024 , 7.30y.h.**

LLANEGRYN COMMUNITY COUNCIL

Minutes of a Council Meeting held on Tuesday 27th August 2024 at 7.30pm in the Hall, Llanegryn.

Present; Cllr. Alwyn Roberts, Lona Harris, William T Davies, Catrin Rutherford, Eurgain Haf Davies

and Huw T Jones (Clerk)

1. A warm welcome was extended to everyone by Chairman Alwyn Roberts.

An apology was received from Cllr WRP Jones.

Expressions of interest were invited for issues on the agenda.

There were no statements.

2. Presentations by members of the public on an issue on the Agenda.

No members of the public were present.

3. The minutes of the Annual Meeting held on the 20th of May were confirmed on the proposal of Cllr. Lona Harris and seconded by Cllr Eurgain Davies.

4. Matters arising and other matters.

a) Memorial Garden - it was reported that there had been no developments recently, and it would have to be discussed at the next meeting. Following payment of the part payment to GT Davies & Co, it was noted that it would be possible to apply for a VAT refund. Cllr Lona Harries would make inquiries about the kind offer of a bench for the site.

b) Toilets in Llanegryn - a response from Scrub and Dub explained the invoice for £150.00. On the motion of Cllr W T Davies and seconded by Cllr Eurgain Haf Davies, it was decided to pay it. It was decided that the Scrubadub service was not needed in the future. Shan Jones had offered to take care of cleaning the toilets himself, and we were very grateful for this. It was noted that the costs would have to be met every quarter.

c) Path near Peniarth Uchaf - it was discussed that a path through Dysefin farm was in question, and that this was not within the boundaries of Llanegryn Council.

d) Unclassified road condition from Rhoslefain in the direction of the Ffordd Ddu - there was no further response

e) Concern about the new road in Machynlleth - the A493 joining the A487 - reference was made to the response of Llinos Jones from Gwynedd Council regarding this matter.

f) Vacant seat on the Council - it was noted that the public notice inviting application for an election had been on the notice board and the website. An email from Huw Elfed Roberts, Electoral

Services Officer from Gwynedd Council dated 23 August confirmed that no application had been received. The Council could now proceed to co-opt. Posters had been prepared for the notice board, and placed on the website, with a closing date of 27th September. It was noted that two names were already in hand.

5. Planning Matters

Advance notice under Schedule 2, Part 31 of the Town and Country Planning (General Permitted Development) Order 1995 for the demolition of Neuadd Egryn store, Llanegryn, LL36 9SL

Permission Type: Prior Notice Application Type: Prior Notification Application Number: NP5/64/65D.

It was confirmed that there was no objection to the application

…………………………………………………..

Application NP5/64/194

Installation of 2 rows of 10kw solar panels placed on the ground Ty'n Llan Farm, Llanegryn. LL36 9ST

It was confirmed that there was no objection to the application

6. Finance Matters.

a) Accounts 2023-24 - all had been delivered to the External Auditor, and there was no further development.

b) It was agreed, on the proposal of Cllr Eurgain Davies and seconded by Lona Harries, to pay the following invoices;

Gwynedd Council - Internal audit 23-24 - £330.

Audit Wales – external audit 2019/20 - £200 and external audit 2021/22 - £335.

(it was noted that an explanation was needed about the delay in receiving these invoices from Audit Wales).

c) There was a request from Cerebral Palsy Cymru, and it was decided not to contribute.

d) There was a note of thanks from Papur Bro Dail Dysynni for the contribution of £150.

e) The Community Council's HSBC Bank Mandate was discussed - and the need to update. Cllr Catrin Rutherford was thanked for contacting the bank. It was decided to discuss after co-opting the new member of the Community Council.

7. Correspondence.

a) Reference was made to the One Llais Cymru training dates which had been circulated to the Councillors

b) Gwynedd Council's consultation on changing the Council's internal voting system was noted and explained.

c) There was a letter from Gwynedd Council stating work on Pont Dysynni.

8. Any other matter.

- There was a request from a member of the public to investigate the situation of overgrown trees above the path that leads to the playing field. The Clerk would put this on the agenda for the next meeting.
- Everyone expressed sincere thanks to Shan for all her work as Clerk, and also for the work that Shan had done since officially giving up his position as Clerk at the end of March this year. It was seen that a contribution of £300 should be given to her, and this was proposed by Cllr Lona Harries and seconded by Cllr Eurgain Davies, and with everyone's support. Huw would contact the accountant to get confirmation of how to make the payment. Eurgain also agreed to arrange to have flowers by the next meeting on the 30th of September.

DATE OF NEXT MEETING;  LLANEGRYN HALL MONDAY 30th September 2024, 7.30pm.